dechreuwyd cynnal cyfarfodydd cystadleuol ac eisteddfodau yn y pwll, a rhai o'r glowyr yn cystadlu ar adrodd, englyna, a siarad ar destun penodedig yn fyrfyfyr. Yn eu plith yr oedd llanciau ifainc fel Watcyn Wyn, ei gyfyrder Gwydderig, Gwalch Ebrill a Meurig Aman.

Yn ystod yr union gyfnod hwn y dechreuwyd gweithio glo carreg o ddifrif yn yr ardal, ac agorwyd nifer o byllau newydd yn y gymdogaeth. Bu twf sylweddol ym mhoblogaeth y fro yn sgîl y datblygiadau hyn gyda'r mudo o'r ardaloedd gwledig, ac ymhlith y newydd-ddyfodiaid yr oedd gŵr a gafodd gryn ddylanwad ar draddodiad llenyddol yr ardal. Daniel Lewis Moses Evans (D. L. Moses i wŷr Brynaman) oedd ef, brodor o Gribyn ger Llanybydder, a ddaeth yn bwyswr i'r gwaith haearn ym Mrynaman yn y pedwardegau. Gwyddom ei fod yn ŵr o ddiwylliant eang, yn eisteddfodwr selog ac yn ohebydd cyson i'r wasg gyfnodol a newyddiadurol Gymraeg. Ac ef, yn anad neb arall, a ddadlennodd gyfrinachau'r traddodiad barddol Cymraeg i fân brydyddion Brynaman, a thyfodd o'i gwmpas gymdeithas fywiog o garedigion llên a barddas. 'Efe a'n dysgodd i gynganeddu' meddai Gwydderig amdano, 'nid o lyfr nac mewn dosbarth, ond ar hyd yr heolydd wrth ei harfer hi'.

Yn y man, drwy ei gyfeillgarwch â D. L. Moses, a thrwy ymroi i gystadlu, daeth Watcyn Wyn yn llanc i'w ofni yng nghylchoedd barddol y gymdogaeth, ac nid yng nghymdogaeth dyffryn Aman yn unig, oblegid lledodd y sôn amdano fel bardd cystadleuol drwy gymoedd y de yn ystod y chwedegau a'r saithdegau cynnar. Priododd yn 1870 â Mary Jones, merch o'r Trap ger Llandeilo, eithr claddwyd y wraig ifanc ymhen blwyddyn, a symudodd Watcyn i Ferthyr Tudful i gynorthwyo'i gefnder Evan Williams a gadwai ysgol yn y dref. Mae'n debyg ei fod yn fwriad ganddo ennill tystysgrif rheolwr glofa, ond llwyddodd Evan Williams ddwyn perswâd arno i fynd yn athro ysgol. Drylliwyd y cynllun hwn fodd bynnag pan fu farw'r prifathro, a dychwelodd Watcyn Wyn at ei deulu ym Mrynaman. Yno yr anogwyd ef i ddechrau pregethu.

I'r Coleg Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin yr aeth Watcyn felly yn 1875, yn gydfyfyriwr gyda llaw â John Gwenogvryn Evans ac Elfed. Ond methodd â sicrhau galwad ar derfyn ei gwrs yno, ac aeth yn gynorthwywr i John Davies a gadwai ysgol yn Llangadog. Wedi naw mis yno, yn dilyn anghydfod rhynddo ac awdurdodau'r ysgol, symudodd i Rydaman yn 1880 ac agor ei ysgol ei hun — yr 'Hope Academy'. Newidiwyd enw'r ysgol i 'Ysgol y Gwynfryn' yn 1888, a daeth yn enwog drwy Gymru gyfan fel magwrfa beirdd a phregethwyr.

Erbyn hyn yr oedd prifathro'r Gwynfryn yn fardd cenedlaethol. 'Roedd eisoes wedi ennill coron Eisteddfod Genedlaethol 1881 a chadair Prifwyl 1885, a dyfarnwyd ei bryddest 'George Washington' yn fuddugol yn Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago yn 1893, er na chafodd y wobr yn llawn. Prin, fodd bynnag, fod neb yn darllen y cynhyrchion hyn erbyn heddiw. Bu'n englyna hefyd wrth gwrs, ond ni ellir cymharu ei englynion ag eiddo Gwydderig. Trodd at ffurfiau llenyddol eraill yn ogystal, fel y nofel er enghraifft, a lluniodd rai nofelau ar y cyd â'i gyfaill Henry Elwyn Thomas, yntau'n frodor o Landybïe. (Ceisiais drafod prif nodweddion y nofelau hyn yn *Y Casglwr*, 48, Nadolig 1992.)

Nid bardd cystadleuol yn unig mohono fodd bynnag. Fel y gŵyr y cyfarwydd lluniodd nifer o emynau a chifieithodd emynau — neu ganeuon Efengylaidd Ira D. Sankey i'r Gymraeg. Cyhoeddwyd y rhain mewn rhannau rhwng 1882 a 1891, a buont yn boblogaidd ddigon am gyfnod gan gynulleidfaoedd crefyddol. Yna, yn ystod nawdegau'r ganrif ddiwethaf dechreuodd Watcyn ymddiddori yn y penillion telyn, a thrwy ei gyfeillgarwch â'r ddau gerddor Daniel Evans (Eos Dâr) a Tom Bryant, cyfansoddodd nifer o benillion i'w canu gan rai o brif ddatgeiniaid ei gyfnod. Yn ei gyfrol *Cân a thelyn* y cyhoeddodd Watcyn fersiwn dyffryn Aman o benillion pyncio'r Fari Lwyd, yn ogystal â phenillion pyncio a glywodd yn cael eu canu mewn priodasau yn yr ardal yng ngyfnod ei blentyndod. Yn ogystal â hynny cofnododd nifer o ganeuon gwerin a glywsai eu canu mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru, a'u cyhoeddi yn *Cymru*, cylchgrawn Owen M. Edwards. Yn y *Cymru* hefyd yr ymddangosodd ei fersiynau o rai o'r chwedlau gwerin ar gân, cyn eu cyhoeddi'n gyfrol wrth y teitl *Storïau Cymru* yn 1901. Afraid dweud bod y defnyddiau hyn yn llawer mwy diddorol na'i gynhyrchion eisteddfodol cynnar.

Ond dichon mai ei waith gorau yw ei gyfrol ddifyr *Adgofion* a gyhoeddwyd yn 1907, ddwy flynedd wedi ei farw, dan olygyddiaeth Gwili. Er mai hunangofiant anghyflawn ydyw, ceir ynddo ddarlun byw a diddorol o'r gymdeithas wledig a ffynnai yn nyffryn Aman yn ystod y cyfnod cyn-ddiwydiannol, cyn agor o'r gweithfeydd a suddo'r pyllau glo. Cynnwys ddisgrifiadau trawiadol o chwaraeon plant ac arferion gwerin y cyfnod, yn ogystal wrth gwrs ag amodau gwaith bechgyn ifainc a phlant ym mân lofeydd y gymdogaeth.

Prin y gellir dweud fod Watcyn Wyn yn llenor ac yn — er bod rhai o'i emynau wedi llwyddo i danio cynulleidfaoedd ein cymanfaoedd canu. Y mae, serch hynny, yn cynrychioli teip arbennig o ddiwylliant a ffynnodd yng Nghymru ei gyfnod — gŵr y buasai hyrwyddwyr 'hunan-gymorth', fel Samuel Smiles, yn falch iawn ohono. Wedi'r cyfan llwyddodd, drwy ymdrech a dyfalbarhad, i ddringo o ddinodedd y lofa i amlygrwydd y bywyd eisteddfodol cyhoeddus.

Yn dilyn ceir rhestr o'i brif weithiau cyhoeddiedig. Am fwy o fanylion ymgynghorer â llyfryddiaeth y Dr Gomer M. Roberts a gyhoeddwyd yng *Nghylchgrawn y Gymdeithas Lyfryddol Gymreig* yn 1945.

*Marwnad y diweddar Samuel Chivers, Pontaman, Cross Inn* (Llandeilo, 1870).

*Caneuon Watcyn Wyn* (Llandeilo, 1871).

*Caneuon Watcyn Wyn* (Wrecsam, 1873).

*Job: chwareugerdd gysegredig* (Llandeilo, 1874).

*Marwnad y diweddar Barch. J. Morris, Cwmifor* (Llandeilo, 1877).

*Marwnad y diweddar Barch. Rhys Pryse, Cwmllynfell* (Ystalyfera, 1878).

*Bywyd (y bryddest fuddugol)* (Merthyr Tydfil, 1882).

*Odlau'r Efengyl, sef yr hymnau diweddaraf a genir yng nghyfarfodydd y Mri Moody a Sankey* (Abertawe, 1882-1890).

*Hwyr ddifyrion . . . yn cynnwys darnau barddonol* (Abertawe, 1883).

*Gwilym Hiraethog: awdl a anfonwyd i gystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol Lerpwl, 1884* (Abertawe, 1884).

*Odlau'r ysgol, sef hymnau gwreiddiol a thonau bywiog i'r plant* (Abertawe, 1885).

*Esgynlawr yr ysgol, sef dadleuon ac adroddiadau crefyddol a moesol* (Abertawe, 1890).

*Byr-gofiant i'r diweddar Barch T. Penry Evans, Pontarddulais*, ar y cyd â D. Onllwyn Brace (Pontarddulais, 1890).

*Hanesgerdd y Sabbath yn Nghymru*, y gerddoriaeth gan M. O. Jones (Abertawe, 1893).

*Cân a thelyn* (Abertawe, 1895).

*Caneuon y safonau i blant yr ysgol ddyddiol* (Abertawe, 1897).


*Llenyddiaeth Gymreig: ei sefyllfa bresenol a'i rhagolygon* (Gwrecsam, 1900).

*Storïau Cymru wedi eu troi ar gân at wasanaeth pawb a'i hoffant* (Gwrecsam, 1900).

*Irfon Meredydd: nofel Gymreig*, ar y cyd â H. Elwyn Thomas (Caerdydd, 1903).

*Nansi: merch y pregethwr dall* (Gwrecsam, 1906).

*Adgofion Watcyn Wyn*, gol., Gwili (Caerdydd, 1907).



CANEUON

WATCYN WYN.

LLANDILO:

ARGRAFFWYD GAN D. W. a G. JONES, POST-OFFICE.

*Tudalen flaen y casgliad o ganeuon o waith Watcyn Wyn a gyhoeddwyd yn Llandeilo yn 1871. Mae'n gyfrol 120 tudalen.*